

PANEL CANIATÂD ARBENNIG Y PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Dydd Iau, 24 Medi 2015

YN BRESENNOL:	Aelodau Annibynnol Mr. Michael Wilson (Cadeirydd) Mr. Islwyn Jones Mrs. Dilys Shaw
WRTH LAW:	Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Swyddog Pwyllgor.
HEFYD YN BRESENNOL:	Neb
YMDDIHEURIADAU:	Dim

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 CAIS AM GANIATAD ARBENNIG

Cyflwynwyd – cais ar y cyd am ganiatâd arbennig gan Aelodau Cyngor Sir Ynys Môn mewn perthynas ag adroddiad 'Darparu Clybiau Brecwast am Ddim mewn Ysgolion Cynradd' a fydd yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir ar 29 Medi, 2015.

Rhoes y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro amlinelliad o'r categorïau o ddiddordebau personol sydd wedi eu rhestru ym mharagraff 10 y Côd Ymddygiad a'r prawf ar gyfer diddordebau sy'n rhagfarnu ym mharagraff 12. Eglurodd na fedrir ond rhoddi caniatâd arbennig mewn amgylchiadau penodol a oedd wedi eu rhestru yn Nogfen 3 y dogfennau a oedd ynghlwm wrth yr Adroddiad i'r Panel.

PENDERFYNODD y Panel fel a ganlyn :-

- Rhoddir caniatâd arbennig i'r holl Aelodau sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn neu sydd â chydabod agos (teulu neu gyfaill) sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn (neu wasanaeth cyfatebol/tebyg/cysylltiedig mewn ysgol) sy'n golygu y gall Aelodau o'r fath siarad a phleidleisio, ar yr amod fod y mater yn ymwneud â'r holl ysgolion neu nifer o ysgolion;
- Bydd y caniatâd arbennig hwn yn ymestyn i unrhyw drafodaeth yn y dyfodol ar y mater hwn (neu wasanaeth cyfatebol/tebyg/cysylltiedig mewn ysgol) am weddill tymor y Cyngor hwn ac ni fydd angen unrhyw ganiatâd arbennig pellach;
- Bydd Aelodau'n parhau i fod â diddordeb personol dan y Côd a bydd angen iddynt ddatgan y diddordeb hwnnw ar gychwyn y cyfarfod neu ar gychwyn y drafodaeth ar yr eitem berthnasol. Ar y ffurflenni datgan diddordeb, rhaid i Aelodau gadarnhau eu bod yn dibynnu ar ganiatâd arbennig a gafwyd gan y Pwyllgor Safonau ar 24 Medi, 2015.

**MR. MICHAEL WILSON
CADEIRYDD**